# *CYLCH GORCHWYL CABINET YR WRTHBLAID*

## *Sefydlu Cabinet yr Wrthblaid*

Er mwyn hyrwyddo perthynas dda rhwng y Cabinet a Grŵp yr Wrthblaid fwyaf ac annog rhannu syniadau, bydd yr Awdurdod yn cydnabod yn ffurfiol sefydlu Cabinet yr Wrthblaid o blith aelodaeth Grŵp yr Wrthblaid fwyaf i gysgodi portffolios Aelodau'r Cabinet.

## *Aelodaeth Cabinet yr Wrthblaid*

Bydd Cabinet yr Wrthblaid yn cynnwys Arweinydd Grŵp yr Wrthblaid fwyaf a hyd at 9 aelod arall o'r Grŵp a gaiff eu henwebu gan yr Arweinydd a bydd yntau'n hysbysu'r Prif Weithredwr, gan gynnwys Dirprwy Arweinydd y Grŵp. Ni chaniateir unrhyw eilyddion.

## *Categorïau cyfarfodydd a fydd yn cynnwys "Dyletswyddau Cymeradwy"*

**1. Cyfarfodydd bob deufis i Aelodau Cabinet yr Wrthblaid gyda'r Aelodau Cabinet perthnasol.**

Bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu yn nyddiadur y Cyngor gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd. Bydd Aelod Cabinet yr Wrthblaid yn rhoi gwybod i'r Uned Gwasanaethau Democrataidd am y materion y mae am eu codi gyda'r Aelod Cabinet yn y cyfarfodydd hyn (7 diwrnod gwaith) cyn dyddiad y cyfarfod. Ni fydd unrhyw swyddogion yn mynychu'r cyfarfodydd hyn ac ni fydd unrhyw gofnod o'r trafodaethau yn cael eu cadw gan swyddogion. Bydd presenoldeb yn y cyfarfodydd hyn yn "ddyletswydd gymeradwy" at ddibenion talu treuliau.

**2.** **Cyfarfodydd bob deufis Cabinet yr Wrthblaid gyda'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion perthnasol.**

Bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu yn nyddiadur y Cyngor gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd. Llunnir agenda ar gyfer pob cyfarfod gan y Prif Weithredwr neu ei gynrychiolydd enwebedig**,** mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor ac Arweinydd yr Wrthblaid. Bydd cofnod cryno o'r materion a drafodir yng nghyfarfodydd Cabinet yr Wrthblaid yn cael ei gadw gan swyddog a enwebwyd gan y Prif Weithredwr, ac ar gael i'w archwilio gan aelodau eraill. Bydd presenoldeb yn y cyfarfodydd hyn yn "ddyletswydd gymeradwy" at ddibenion talu treuliau; Bydd y trefniadau ar gyfer y cyfarfodydd hyn yn parhau i gael eu hadolygu.

---

### *Cabinet yr Wrthblaid / Perthnasoedd Aelodau Cabinet â Swyddogion*

---

Ac eithrio'r trefniadau o ran y dyletswyddau cymeradwy a ddisgrifir uchod, ni fydd unrhyw gyfarfodydd eraill rhwng Cabinet yr Wrthblaid a swyddogion, ac ni fydd unrhyw gyfarfodydd anffurfiol rhwng Aelod Cabinet yr Wrthblaid a'r Aelod Cabinet perthnasol yn cael eu hystyried yn "ddyletswyddau cymeradwy" ac ni fydd unrhyw dreuliau'n cael eu talu;

Er mwyn osgoi amheuaeth ni fydd uniondeb swyddogion yn cael ei beryglu, ac yn benodol:

- ni ofynnir i swyddogion dorri cyfrinachedd y Cabinet nac Aelodau'r Cabinet;

- ni ofynnir ar unrhyw adeg i swyddogion lunio cynigion polisi ar gyfer Cabinet yr Wrthblaid neu Aelodau Cabinet yr Wrthblaid, ac eithrio pan fo'r Arweinydd (a/neu'r Aelod Cabinet perthnasol) wedi awdurdodi'r datblygiad polisi hwnnw i'w gynnwys yn eu hystyriaethau eu hunain o ran datblygu polisi.

- Ni fydd swyddogion yn cael eu rhoi mewn sefyllfa sy'n golygu esbonio pam mae'r Cabinet wedi cymryd camau penodol.

---

### *Pwyllgorau Craffu*

---

· Bydd Pwyllgorau Craffu'r Awdurdod yn cael eu parchu ac ni fydd Cabinet yr Wrthblaid yn unrhyw un o'r cyfarfodydd a ddisgrifir uchod yn gweithredu fel pwyllgor craffu, ac eithrio y gall y Cabinet neu Aelod Cabinet yn ôl eu disgresiwn wahodd Cabinet yr Wrthblaid i gynnal rhywfaint o graffu cyn gwneud penderfyniadau ar fater o'u dewis.

MAI 2024